Tachwedd 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynlluniau dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cynllun Swyddfa Archwilio Cymru: mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar 27 Medi 2017

Cynllun Archwilydd Cyffredinol Cymru: Mabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 27 Medi 2017

© Swyddfa Archwilio Cymru 2017

# Cynnwys


Cynllun dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru

Cyflwyniad 4

Swyddogaethau cyffredinol a'r rhai a neilltuwyd i'r Bwrdd 5

Amodau dirprwyo 6

Rhestr fanwl o'r hyn sydd wedi ei ddirprwyo 7

Darparu staff ac adnoddau eraill 7

Monitro sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau 15

Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol 16

Cynllunio corfforaethol, adrodd yn ôl a rhwymedigaethau eraill 16

Gwaith cytundebol 18

Swyddogaethau eraill 19

Cynllun dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyflwyniad 23

Swyddogaethau cyffredinol a'r rhai a neilltuwyd i'r Archwilydd Cyffredinol 24

Amodau dirprwyo 26

Rhestr fanwl o'r hyn sydd wedi ei ddirprwyo 27

Cynnal archwiliadau ac ati o gyrff cyhoeddus 27

Rheoli Cronfa Gyfunol Cymru 32

Cyhoeddi cod ymarfer archwilio, canllawiau technegol a sicrhau ansawdd 33

Swyddogaethau ategol ac ati 34

Swyddogaethau eraill 35

Swyddogaeth y Swyddog Cyfrifyddu 36

# Cynllun dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru

## Cyflwyniad

1 Mae'r cynllun hwn yn egluro sut y caiff swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd) eu dirprwyo. O ran cyd-destun, mae hefyd yn egluro'r swyddogaethau sydd wedi'u neilltuo i'r Bwrdd eu cyflawni. Er mwyn cael golwg gynhwysfawr ar y swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo yn y sefydliad, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllun dirprwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2 Mae modd i'r Bwrdd ddiwygio neu ddiddymu ei gynllun dirprwyo yn unol â'i reolau gweithdrefnol (sydd i'w gweld yn ei gylch gorchwyl). Ymhellach, beth bynnag yw darpariaethau'r cynllun dirprwyo hwn, mae modd i'r Bwrdd ar unrhyw adeg gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau ohono'i hun, naill ai ar ei benderfyniad ei hun neu ar argymhelliad swyddog y mae'r mater hwnnw wedi ei ddirprwyo iddo.

3 Er gwaethaf unrhyw drefniadau dirprwyo, mae'r Bwrdd yn parhau'n gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau.

4 Ac eithrio unrhyw swyddogaethau sydd wedi eu neilltuo drwy statud, mae modd i'r Archwilydd Cyffredinol, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru, gyflawni Swyddogaethau'r Bwrdd nad ydyn nhw wedi eu dirprwyo na'u neilltuo o dan gynllun dirprwyo'r Bwrdd. Mae modd i'r Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo swyddogaethau o'r fath ymhellach, yn unol â'r amodau cyffredinol a amlinellir ym mharagraff 9 isod.

5 Mae rhannau nesaf y ddogfen hon yn cynnwys:

a crynodeb o swyddogaethau'r Bwrdd er mwyn gosod y rhestr fanwl yn ei chyd-destun (ni fydd hyn yn lleihau effaith cynnwys y rhestr);

b yr amodau dirprwyo sy'n berthnasol i'r cynllun hwn;

c rhestr fanwl o'r hyn sydd wedi ei ddirprwyo.

## Swyddogaethau cyffredinol a’r rhai a neilltuwyd i’r Bwrdd

6 Yn gyffredinol, mae’r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

- a monitro sut mae’r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi ei swyddogaethau ar waith
- b cynghori’r Archwilydd Cyffredinol[1];
- c cyflogi staff a darparu adnoddau fel bod modd i’r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei swyddogaethau.

7 Nid oes modd dirprwyo rhai swyddogaethau penodol, a benodir gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, pa un a oes cynllun yn bodoli ai peidio:

- a amcangyfrif incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol;
- b paratoi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyda’r Archwilydd Cyffredinol;
- c gwneud rheolau er mwyn rheoleiddio gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru
- ch argymhell person i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru;
- d cydbaratoi adroddiad neu adroddiad dros dro bob blwyddyn ariannol ynglŷn â chyflawni swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
- dd dynodi, gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, berson arall i gyflawni swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol am gyfnod dros dro.

8 Mae swyddogaethau eraill nad ydyn nhw wedi eu dynodi ond y mae’r Bwrdd wedi dewis eu neilltuo iddo’i hun. Mae’r rhain wedi eu hamlinellu yn y rhestr fanwl.

1 Mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ystyried unrhyw gyngor a gaiff gan y Bwrdd ond yn y pen draw mae ganddo ryddid perffaith o ran sut y caiff dyletswyddau’r swydd eu cyflawni; nid yw’r Archwilydd Cyffredinol o dan gyfarwyddyd na rheolaeth y Bwrdd yn rhinwedd ei swydd fel archwilydd

## Amodau dirprwyo

9 Mae’r swyddogaethau a ddirprwyir yn y rhestr hon yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

a mae’n rhaid gweithredu’r holl rymoedd sydd wedi eu dirprwyo yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru;

b cyn cyflawni unrhyw swyddogaeth sydd wedi ei dirprwyo, mae’r rhaid i’r sawl sy’n cyflawni’r swyddogaeth ymgynghori’n briodol, er enghraifft, gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol ynghylch a fydd unrhyw effaith sylweddol ar adnoddau;

c ni ddylid gweithredu’r grymoedd dirprwyol mewn modd sy’n debygol o beri pryder cyhoeddus;

ch oni bai bod y rhestr yn nodi nad oes modd dirprwyo swyddogaeth neu ei ddirprwyo ymhellach, mae modd dirprwyo ymhellach os gwneir cofnod ysgrifenedig o’r dirprwyo hwnnw.

10 Dylai’r bobl hynny sy’n rhoi’r swyddogaethau dirprwyol ar waith ystyried swyddogaeth a chyfrifoldebau y Pwyllgor Rheoli fel y’u disgrifir yng nghylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw. Bydd y sawl sy’n rhoi’r swyddogaeth ddirprwyedig ar waith yn penderfynu ar natur, cwmpas ac amseru unrhyw drafodaethau gyda’r Pwyllgor.

## Rhestr fanwl o’r hyn sydd wedi ei ddirprwyo

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1. | Darparu staff ac adnoddau eraill i’r Archwilydd Cyffredinol | | |
| 1.1 | Cyflogi staff (Adran 21(2)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.1.1 | Pennu telerau ac amodau cyffredinol cyflogaeth, gan gynnwys graddfeydd cyflog a’r strategaeth gyflogau | *Y Bwrdd* | Bydd y Cadeirydd a’r Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr yn cytuno ynglŷn â rhychwant y swyddogaethau a gaiff eu neilltuo. Fodd bynnag, yn ogystal â graddfeydd cyflog a’r strategaeth gyflogau, mae telerau ac amodau cyffredinol cyflogaeth fel arfer yn cyfeirio at y Llawlyfr Staff ac unrhyw bolisïau newydd neu ddadleuol. |
| 1.1.2 | Penderfynu ar strwythur cyffredinol y sefydliad, gan gynnwys strwythur (o ran seddi a chyfrifoldebau) y Pwyllgor Rheoli | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ystyried cyngor y Bwrdd. |
| 1.1.3 | Penderfynu ar y trefniant manwl islaw’r Pwyllgor Rheoli, gan gynnwys strwythur (o ran nifer y swyddi a’r cyfrifoldebau) | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo’r swyddogaeth hon ymhellach i’r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a’r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol ar gyfer eu hunedau busnes perthnasol eu hunain, yn amodol ar ymgynghori fel bo’n briodol (yn dibynnu ar gwmpas a rhychwant unrhyw newidiadau a’u heffeithiau). |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *<u>Neilltuo</u>* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.1.4 | Penodi, asesu a therfynu cyfnod cyfarwyddwyr sydd â sedd ar y<br>Pwyllgor Rheoli | *Y Bwrdd* | Yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynghori'r Pwyllgor Tâl ac Adnoddau Dynol fydd yn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd. |
| 1.1.5 | Penodi, asesu a therfynu cyfnod cyfarwyddwyr eraill | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cyngor yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol ynglŷn â phenodi neu derfynu cyfnod cyfarwyddwyr.<br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn asesu gwaith cyfarwyddwyr ac yn cael llofnod yr Archwilydd Cyffredinol. |
| 1.1.6 | Penodi, asesu a therfynu cyfnod gweithwyr eraill (ac eithrio terfynu cyfnod aelodau staff y Bwrdd) | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Bydd Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol a fydd yn ei ddirprwyo ymhellach yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol. |
| 1.1.7 | Swyddogaethau eraill sy'n rhan o'r gwaith (e.e. gweinyddu cyflogau neu daliadau) ond heb gynnwys diswyddo aelodau cyflogedig y Bwrdd | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaethau hyn i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol ac fe gaiff yntau, yn ei dro, eu dirprwyo ymhellach yn unol â strwythur Swyddfa Archwilio Cymru a pholisïau Adnoddau Dynol. |
| 1.1.8 | Terfynu cyflogaeth neu ddiswyddo aelodau cyflogedig y Bwrdd | *Aelodau heb rymoedd gweithredu* | |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *<u>Neilltuo</u>* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.1.9 | Sefydlu a monitro darpariaeth y Strategaeth Bobl. | *Y Bwrdd* | Y cyfrifoldeb o baratoi'r Strategaeth wedi ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr |
| 1.1.10 | Paratoi a chymeradwyo polisïau Adnoddau Dynol (ar wahân i'r rheini y mae 1.1.1 yn berthnasol iddynt) | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth o baratoi polisïau i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol sy'n cael cefnogaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol. |
| 1.1.11 | Paratoi a chymeradwyo polisïau eraill yn ymwneud â staff, gan gynnwys:<br>• Cod Ymddygiad Staff<br>• Y polisi dinoethi mewnol<br>• Y polisi rhoddion a lletygarwch | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth o baratoi'r polisïau hyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth y Pennaeth Cyfraith a Moeseg. Archwilydd Cyffredinol yn dal yn gyfrifol am gymeradwyo'r polisïau hyn. |
| 1.2 | Materion Ariannol | | |
| 1.2.1 | Cydbaratoi a chyflwyno'r Amcangyfrif gyda'r Archwilydd Cyffredinol | *<u>Y Bwrdd</u>* | Adran 20(1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. |
| 1.2.2 | Pennu cyllidebau mewnol (gan gynnwys cyfrifoldebau cyllidebol dirprwyol) yn rhan o'r Amcangyfrif | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.2.3 | Monitro cyllidebau mewnol:<br>**a** Ar gyfer cynlluniau a chontractau sydd â gwerth oes o £250,000 neu fwy (ac eithrio'r gyflogres)<br>**b** Popeth arall | **a** *Y Bwrdd*<br>**b** Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo (b) i bennaeth cyllideb y maes gwariant perthnasol fel yr eglurir yn y Llawlyfr Rheolaeth Ariannol. |
| 1.2.4 | Cadarnhau ymrwymiadau gwariant ac eithrio'r gyflogres (ffurfio contract neu archeb yn rhan o'r contract):<br>**a** £250,000 a mwy<br>**b** Llai na £250,000 (ac eithrio colledion a thaliadau arbennig – gweler isod; hefyd wedi ei eithrio mae gwaith cytundebol – gweler 5.1.3) | **a** *Y Bwrdd*<br>**b** Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo (b) i bennaeth cyllideb y maes gwariant perthnasol fel yr eglurir yn y Llawlyfr Rheolaeth Ariannol. |
| 1.2.5 | Awdurdodi colledion a thaliadau arbennig:<br>**a** £15,000 a mwy<br>**b** Llai na £15,000 | **a** *Y Bwrdd*<br>**b** Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | |
| 1.2.6 | Cadarnhau'r cynllun tâl i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol | *Y Bwrdd* | Adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| 1.2.7 | Cadarnhau taliad treuliau i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr | Cadeirydd | |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Sicrhau gwasanaethau (Adran 21(2)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | | |
| 1.3.1 | Paratoi a gosod polisïau a chanllawiau caffael | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth o baratoi'r polisi a'r canllawiau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth y Pennaeth Gwasanaethau Busnes mewn cyswllt â'r<br>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol. |
| 1.3.2 | Penderfynu pa wasanaethau penodol fydd eu hangen, gan gynnwys drafftio'r fanyleb | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r penaethiaid cyllid fel yr eglurir yn y Llawlyfr Rheolaeth Ariannol. |
| 1.3.3 | Sicrhau darpariaeth gwasanaethau archwilio proffesiynol (hynny yw, contractwyr) yn unol â gofynion yr Archwilydd Cyffredinol | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a fydd yn ymgynghori gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. |
| 1.3.4 | Sicrhau darpariaeth cyfleusterau TG ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd. | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth y Pennaeth TGCh. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.3.5 | Sicrhau darpariaeth offer swyddfa, dodrefn, deunydd ysgrifennu a rheoli trefniadau teithio a llety ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth y Pennaeth Gwasanaethau Busnes. |
| 1.3.6 | Sicrhau bod cyngor cyfreithiol annibynnol a chyngor proffesiynol o fathau eraill ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cyfraith a Moeseg. |
| 1.3.7 | Gwaith cyfathrebu yng nghyswllt swyddogaethau'r Bwrdd | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cyfathrebu. |
| 1.3.8 | Sicrhau darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes.<br>Yr Archwilydd Cyffredinol yn cael cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.4 | Dal eiddo a rheoli adeiladau (Adran 21(2)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.4.1 | Cymeradwyo'r strategaeth rheoli asedau | *Y Bwrdd* | Bydd y Bwrdd yn cael cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr; yn ymarferol caiff hyn ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.4.2 | Prynu, dal a gwaredu ag eiddo | *Y Bwrdd* | Bydd y Bwrdd yn cael cyngor gan Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr; yn ymarferol caiff hyn ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.4.3 | Defnyddio Sêl Swyddfa Archwilio Cymru i lofnodi gweithred, fel bo angen, er enghraifft, i weithredu penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd i brynu neu i waredu eiddo neu fudd mewn eiddo | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Nid oes modd defnyddio Sêl<br>Swyddfa Archwilio Cymru heb gael penderfyniad blaenorol gan y Bwrdd, ac mae'n rhaid i'r Pennaeth Cyfraith a Moeseg gofnodi'r weithred yn y Gofrestr Seliau. |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.5 | Dal dogfennau a chadw cofnodion (Adrannau 21(2)(d) a 21(2)(e) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.5.1 | Paratoi a chymeradwyo polisïau a gweithdrefnau ar gyfer dal dogfennau, cadw cofnodion a dal gwybodaeth ynglŷn â phob swyddogaeth (gan gynnwys diogelwch gwybodaeth) | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth) sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes (sy'n cynnwys y Swyddog Cofnodion Adrannol).<br><br>Mae Cyfarwyddwyr, yr Arweinwyr Ymgysylltu a'r Penaethiaid Gwasanaethau yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol o ran cydymffurfio â threfniadau llywodraethu gwybodaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb (yn cynnwys Perchnogion Asedau Gwybodaeth). |
| 1.5.2 | Dal dogfennau a chadw cofnodion ynglŷn â thrafodiadau'r Bwrdd a'r ffyrdd eraill y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. | Ysgrifennydd y Bwrdd | |
| 1.5.3 | Dal dogfennau a chadw cofnodion ynglŷn â sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bersonol yn cyflawni ei swyddogaethau | Yr Archwilydd Cyffredinol | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo hyn ymhellach i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *<u>Neilltuo</u>* drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.5.4 | Dal dogfennau a chadw cofnodion ynglŷn â sut y gweithredir y swyddogaethau a ddirprwywyd gan yr Archwilydd Cyffredinol | Wedi eu dirprwyo i'r un graddau â swyddogaethau eraill a ddirprwywyd o dan y cynllun hwn | |
| 1.5.5 | Trin ceisiadau gwybodaeth (e.e. o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu y Ddeddf Gwarchod Data) | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cyfraith a Moeseg.<br>Nid yw'r dirprwyo hwn yn berthnasol o ran barn yr<br>Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â 'Pherson Perthnasol' ar gyfer a36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sydd wedi ei neilltuo'n statudol i'r Archwilydd Cyffredinol. |
| 1.5.6 | Cadw Sêl a Chofrestr Seliau Swyddfa Archwilio Cymru | Y Pennaeth Cyfraith a Moeseg | |
| 2. | Monitro sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau | | |
| 2.1 | Monitro sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau | *<u>Y Bwrdd</u>* | Adran 17(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013. |
| 2.2 | Goruchwylio perfformiad yr<br>Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu | *Y Bwrdd* | Caiff y Bwrdd ei gynghori gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 3. | Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol | | |
| 3.1 | Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch ei swyddogaethau mewn cyfarfodydd Bwrdd ac yn gyffredinol | *Y Bwrdd* | Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013. |
| 4. | Cynllunio corfforaethol, adrodd yn ôl a rhwymedigaethau eraill | | |
| 4.1 | Cynllun Blynyddol (Adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 4.1.1 | Cydbaratoi[2] y Cynllun Blynyddol gyda'r Archwilydd Cyffredinol | *Y Bwrdd* | Caiff y Bwrdd ei gynghori gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr; yn ymarferol caiff hyn ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd. |
| 4.2 | Cyfrifon ac archwiliad (i'w ddarllen ar y cyd ag Adran 6 o gynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol sy'n ymdrin â'i swyddogaethau fel Swyddog Cyfrifyddu) | | |
| 4.2.1 | Cyflwyno'r cyfrifon i'r archwilydd allanol | *Cadeirydd* | Paragraff 35(1)(b) o atodiad 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| 4.2.2 | Cymeradwyo cyfrifon blynyddol<br>Swyddfa Archwilio Cymru ac argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn eu llofnodi fel y Swyddog Cyfrifyddu | *Y Bwrdd* | Bydd y Bwrdd yn cael cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |

2 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Cynllun Blynyddol

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 4.2.3 | Argymell archwilydd i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol | *Y Bwrdd* | Paragraff 34(2) o atodiad 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.<br>Caiff y gwaith sy'n galluogi'r<br>Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu sy'n ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael cefnogaeth y Pennaeth Gwasanaethau Busnes.<br>Ni chaniateir dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol. |
| 4.2.4 | Cymeradwyo polisïau cyfrifo | *Y Bwrdd* | Wedi ei neilltuo hefyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu.<br>Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Adroddiadau | | |
| 4.3.1 | Gweithio gyda'r Archwilydd Cyffredinol i gydbaratoi[3] adroddiadau ynglŷn â chyflawni swyddogaethau | *Cadeirydd* | Paragraph 3 o atodiad 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.<br>Nid oes modd dirprwyo'r swyddogaeth hon, ond fe all y Cadeirydd ofyn i aelodau eraill o'r Bwrdd gyfrannu at y broses.<br>Caiff y gwaith sy'n galluogi'r Cadeirydd i gyflawni ei swyddogaeth ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn cefnogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| 5. | Gwaith cytundebol | | |
| 5.1 | Y cyfrifoldeb pennaf am gynllunio gwaith cytundebol, gan gynnwys penderfynu'n benodol ar yr adnoddau sy'n ofynnol | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol<br>(Gweler hefyd Gynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â gwaith cytundebol.) |

3 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi adroddiadau ynglŷn â chyflawni swyddogaethau

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *<u>Neilltuo</u>* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 5.2 | Y gwaith i sefydlu cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau gan<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu staff Swyddfa Archwilio Cymru | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol. |
| 5.3 | Cwblhau cytundebau gyda chost oes o:<br><br>**a** Llai na £50,000;<br><br>**b** £50,000 neu fwy | **a** Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr<br><br>**b** *Y Bwrdd* | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo (a) i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol. |
| 5.4 | Swyddfa Archwilio Cymru i ddynodi pa staff sydd wedi eu pennu i wneud gwaith cytundebol | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol. |
| 6. | Swyddogaethau eraill | | |
| 6.1 | Pennu, gosod unrhyw delerau ac amodau ychwanegol a therfynu cyfnod aelodau cyflogedig y Bwrdd | *<u>Aelodau anweithredol</u>* | Adrannau 14 i 21 o atodiad 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***<u>Neilltuo</u>*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 6.2 | Cydbaratoi[4] y cod ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, a'i adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd | *<u>Y Bwrdd</u>* | Paragraff 1 o atodiad 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.<br>Caiff y gwaith sy'n galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cefnogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. |
| 6.3 | Paratoi, addasu neu ddiddymu Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd | *Y Bwrdd* | Paragraff 32 o atodiad 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.<br>Caiff y gwaith sy'n galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i gael cefnogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd, gydag yntau yn ei dro yn gorfod ymgynghori â'r Pennaeth Cyfraith a Moeseg. |

4 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Cod Perthynas

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 6.4 | Paratoi rheolau gweithdrefnol y Bwrdd (gan gynnwys ar gyfer rheoleiddio gweithdrefnau pwyllgorau) | *Y Bwrdd* | Paragraffau 27 i 30 o atodiad 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus 2013.<br>Caiff y gwaith i alluogi paratoi rheolau gweithdrefnol ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Ysgrifennydd y Bwrdd i gefnogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. |
| 6.5 | Dynodi person i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol am gyfnod dros dro | *Y Bwrdd* | Paragraff 5 o atodiad 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.<br>Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol (y Pwyllgor Perthnasol) gytuno â'r dynodiad.<br>Caiff y gwaith o alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 6.6 | Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar y Bwrdd heblaw am drwy gyfrwng deddfwriaeth gyflogaeth neu drethi, e.e. llywodraethu gwybodaeth, deddfwriaeth gydraddoldeb a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. |
| 6.7 | Penodi cadeiryddion ac aelodau o bwyllgorau'r Bwrdd. | *Y Bwrdd* | Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cefnogi'r Bwrdd gyda'r swyddogaeth hon. |
| 6.8 | Gwaith i alluogi'r Bwrdd i baratoi polisïau eraill (megis y Cod Ymddygiad a'r polisi teithio a chynhaliaeth) | Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Ysgrifennydd y Bwrdd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol |

# Cynllun Dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Cyflwyniad

1 Mae'r cynllun hwn yn egluro sut y caiff swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) eu dirprwyo. Fe'i llunir o dan Adran 18 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'n rhaid dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn unol â chynllun a baratoir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

2 O ran cyd-destun, mae'r cynllun hefyd yn egluro'r swyddogaethau sydd wedi eu neilltuo i'w cyflawni'n bersonol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Er mwyn cael golwg gynhwysfawr ar y swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo yn y sefydliad, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd), yn enwedig gan fod y cynllun hwnnw yn darparu ar gyfer:

- dirprwyo rhai o swyddogaethau penodol y Bwrdd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr y sefydliad; a
- swyddogaethau yn ymwneud ag archwilio a chyfrifyddu sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Mae modd i'r Archwilydd Cyffredinol ddiwygio neu ddiddymu ei Gynllun / Chynllun Dirprwyo unrhyw bryd, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd. At hynny, beth bynnag yw darpariaethau'r cynllun hwn, mae modd i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau'n bersonol ar unrhyw adeg.

4 Er gwaethaf unrhyw drefniadau dirprwyo sy'n bodoli, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau'n bersonol gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau.

5 Mewn sefyllfaoedd pan fo'r Archwilydd Cyffredinol yn anfodlon neu'n analluog i gyflawni dyletswyddau ei swydd, mae modd i'r Bwrdd, gyda sêl bendith y Cynulliad Cenedlaethol, ddynodi person i gyflawni'r swyddogaethau hynny dros dro yn unol â Rhan 3 o Atodiad 2 Deddf 2013. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd y cynllun hwn yn weithredol fel pe'i gweithredid gan y person dynodedig hwnnw, ac mae modd i'r person hwnnw ei ddiwygio a'i ddiddymu, yn unol â'r gofyniad statudol o ymgynghori gyda'r Bwrdd.

6 Mae rhannau nesaf y ddogfen hon yn cynnwys:

a crynodeb o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn gosod y rhestr fanwl o swyddogaethau dirprwyol yn ei chyd-destun (ni fydd hyn yn lleihau effaith cynnwys y rhestr);

b yr amodau sy'n berthnasol i'r cynllun hwn;

c crynodeb o'r swyddogaethau sydd wedi eu neilltuo i'r Archwilydd Cyffredinol;

ch rhestr fanwl o'r hyn sydd wedi ei ddirprwyo.

## Swyddogaethau cyffredinol a'r rhai a neilltuwyd i'r Archwilydd Cyffredinol

7 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldebau a swyddogaethau mewn cysylltiad â thair dyletswydd:

a ei swyddogaeth fel archwilydd, sy'n cynnwys:

i. y swyddogaeth statudol o archwilio cyfrifon;

ii. archwiliadau a wneir drwy gytundeb;

iii. archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian (er mwyn byrder, mae'r term 'astudiaeth' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at archwiliadau ac astudiaethau)

iv. ardystio hawliadau ac adroddiadau grant;

v. asesiadau gwelliannau, archwiliadau cynllunio gwelliannau ac archwiliadau arbennig a wneir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;

vi. paratoi cynllun dirprwyo ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau;

vii. paratoi cod ymarfer archwilio ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau archwilio.

b ei swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys:

i. cadw cyfrifon a chofnodion Swyddfa Archwilio Cymru pob blwyddyn ariannol mewn modd priodol;

ii. paratoi datganiad o'r cyfrifon hynny;

iii. cydymffurfio â chyfrifoldebau ychwanegol yng nghyswllt cyfrifon ac arian Swyddfa Archwilio Cymru a ddynodir o bryd i'w gilydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

c ei swyddogaeth fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw'r Statud yn egluro swyddogaethau'r Prif Weithredwr yn fanwl ond mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai swyddogaethau i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni swyddogaeth y Prif Weithredwr. Caiff y rhain eu disgrifio yng Nghynllun Dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru.

8 Mae'r swyddogaethau canlynol wedi eu neilltuo i'w cyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol:

a penodi cyfarwyddwyr ymgysylltu;

b awdurdodi'r gwaith o ddechrau ar astudiaethau, archwiliadau arbennig ac ymarferion paru data;

c penderfyniadau i gyflwyno adroddiadau a dogfennau eraill o eiddo'r Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol (nid yw hyn yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn ag amseru pryd y cyflwynir dogfennau y mae dyletswydd i'w cyflwyno);

ch os nad oes darpariaeth berthnasol i gyflwyno dogfennau (fer enghraifft yn achos mathau penodol o astudiaethau llywodraeth leol), cymeradwyo cyhoeddi adroddiadau astudiaeth (ac adroddiadau ynglŷn â Mesur 2009 ac adroddiadau paru data);

d awdurdodi cyhoeddiad cod ymarfer archwilio, cod ymarfer paru data a dogfennau corfforaethol eraill y mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol eu paratoi drwy statud;

dd cyflwyno barn yr Archwilydd Cyffredinol fel y 'Person Perthnasol' o dan a36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;

e llofnodi'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu;

f ymddangos fel tyst gerbron Pwyllgor Perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol;

ff sicrhau y caiff gweithdrefnau ariannol priodol eu sefydlu mewn modd priodol, gan ddiogelu adnoddau cyhoeddus a darparu gwybodaeth reoli ddigonol, gan gynnwys ystyried cyngor yn deillio o'r Archwiliad Mewnol;

g cydbaratoi'r Cynllun Blynyddol, y Cod Perthynas, yr Amcangyfrif ac adroddiadau ynglŷn â chyflawni swyddogaethau (adroddiadau cynnydd).

## Amodau dirprwyo

9 Mae'r swyddogaethau a ddirprwyir yn y rhestr hon yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

a mae'n rhaid gweithredu'r holl rymoedd sydd wedi eu dirprwyo yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru, y Cod Ymarfer Archwilio a chanllawiau'r Archwilydd Cyffredinol;

b cyn gweithredu unrhyw rymoedd sydd wedi eu dirprwyo, mae'r rhaid i'r sawl sy'n cyflawni'r swyddogaeth ymgynghori'n briodol, er enghraifft, gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol ynghylch a fydd unrhyw effaith sylweddol ar adnoddau;

c ni ddylid gweithredu'r grymoedd dirprwyol mewn modd sy'n debygol o beri pryder cyhoeddus;

ch oni bai bod yr atodiad yn nodi nad oes modd dirprwyo swyddogaeth neu ei ddirprwyo ymhellach, mae modd dirprwyo ymhellach os gwneir cofnod ysgrifenedig o'r dirprwyo hwnnw;

d mae modd i'r Pwyllgor Rheoli, yn unol â'i gylch gorchwyl, ystyried swyddogaethau y mae'r Bwrdd wedi eu dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru; bydd y sawl sy'n rhoi'r swyddogaeth ddirprwyedig ar waith yn penderfynu ar natur, cwmpas ac amseru unrhyw drafodaethau gyda'r Pwyllgor.

10 Dylai'r bobl hynny sy'n rhoi'r dyletswyddau dirprwyo ar waith ystyried swyddogaeth a chyfrifoldebau y Pwyllgor Rheoli fel y'u disgrifir yn ei gylch gorchwyl. Bydd y sawl sy'n rhoi'r swyddogaeth ddirprwyedig ar waith yn penderfynu ar natur, cwmpas ac amseru unrhyw drafodaethau â'r Pwyllgor.

## Rhestr fanwl o'r hyn sydd wedi ei ddirprwyo

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1 | Cynnal archwiliadau ac ati o gyrff cyhoeddus | | |
| 1.1 | Y cyfrifoldeb pennaf am gynllunio gweithgarwch archwilio, gan gynnwys yn benodol benderfynu ar gyfanswm yr adnoddau fydd eu hangen | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | Mae'r gwaith archwilio yn cynnwys:<br>• archwilio cyfrifon, gan gynnwys gwaith ychwanegol perthnasol megis gwaith i fodloni'r gofyn bod yr Archwilydd Cyffredinol, o ran archwilio cyfrifon corff, yn ffyddiog bod y corff wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('y casgliad gwerth am arian').<br>• Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian.<br>• Archwiliad gwella llywodraeth leol, asesiad ac archwiliad arbennig ('gwaith yn ymwneud â Mesur 2009').<br>• Ardystio hawliadau ac adroddiadau grantiau ac ati (o dan baragraff 20 o Atodiad 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.<br>• Paru data.<br>• Gwaith cytundebol. |
| 1.2 | Pennu cyfarwyddwr ymgysylltu i gorff archwiliedig | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol i gynghori'r Archwilydd Cyffredinol. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Pennu arweinwyr ymgysylltu, staff a chontractwyr i archwilio prosiectau | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn dirprwyo ymhellach y gwaith o bennu staff swyddfa a chontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru i gyfarwyddwyr busnes. |
| 1.4 | Cymeradwyo'r gwaith o ddechrau ar yr archwiliad arbennig o dan a37 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (hefyd cadarnhau'r elfen o lunio adroddiad ynghylch archwiliad o'r fath) | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.5 | Cynllunio a chyflawni prosiectau archwilio | Wedi pennu arweinydd ymgysylltu o dan adran 1.3 | Yr arweinydd ymgysylltu i ddirprwyo'r gwaith archwilio ymhellach i'r staff sydd wedi eu pennu i'r prosiect archwilio. |
| 1.6 | Cydlynu'r gwaith o archwilio corff cyhoeddus, gan gynnwys bod yn brif bwynt cyswllt gyda'r corff hwnnw. | Wedi pennu cyfarwyddwr ymgysylltu o dan 1.2 | Mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr ymgysylltu ymgynghori â'r arweinydd(ion) ymgysylltu priodol ynglŷn â'r mater hwn. |
| 1.7 | Llofnodi datganiadau barn ynglŷn â'r archwiliad o gyfrifon Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Cynulliad a baratowyd yn unol ag adrannau 131 ac 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys cymeradwyo'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ger bron y cyhoedd o dan baragraff 19 o atodiad 8 Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n deillio o archwilio'r cyfrifon. | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** **drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.8 | Llofnodi datganiad o farn ynglŷn â'r archwiliad o gyfrifon sydd i'w cyflwyno | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.9 | Llofnodi datganiad o farn ynglŷn â'r archwiliad o gyfrifon y cyrff canlynol: Awdurdodau Gwella Cymreig, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd neu'r Prif Gwnstabliaid<br>Hefyd, mewn cysylltiad ag Awdurdodau lle bo'n berthnasol:<br>• Cymeradwyo cyhoeddi adroddiad uniongyrchol neu o fath arall er budd y cyhoedd o dan a22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 neu baragraff 19 o Atodiad 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006<br>• Rhoi cyfle i etholwyr (a'u cynrychiolwyr) gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon (a30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004)<br>• Cais i ddatgan bod eitem cyfrif yn groes i'r gyfraith o dan a32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, hysbysiad o benderfyniad i beidio â cheisio datganiad o'r fath a darparu datganiad yn egluro'r rhesymau dros beidio â cheisio datganiad o'r fath<br>• Cyhoeddi hysbysiad cynghori o dan a33 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, darparu datganiad ynglŷn â rhesymau cyhoeddi hysbysiadau o'r fath, diddymu hysbysiadau o'r fath a hysbysu ynghylch hynny<br>• Cais am adolygiad barnwrol o dan a36 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | Mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol ddiweddaru'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â chynnydd unrhyw faterion penodol yn ymwneud â'r archwiliad. |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.10 | Llofnodi datganiad o farn ar archwiliadau nad ydynt i'w cyflwyno nac ychwaith mewn cysylltiad ag Awdurdodau Gwella Cymreig, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd neu'r Prif Gwnstabliaid (e.e. cynghorau cymuned ac archwiliadau cytundeb). Hefyd, o ran cyrff o'r fath, rhoi cyfle i etholwyr (a'u cynrychiolwyr) gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon (a30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) | Arweinydd ymgysylltu wedi ei ddynodi o dan 1.3 | Mae modd i'r Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo ymhellach y gwaith o ateb cwestiynau i reolwyr perthnasol |
| 1.11 | O ran cyrff llywodraeth leol nad ydynt yn Awdurdodau Gwella Cymreig, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd neu Prif Gwnstabliaid (e.e. cynghorau cymuned ac archwiliadau cytundebol):<br>• Cymeradwyo cyhoeddiad adroddiad uniongyrchol neu o fath arall er diddordeb y cyhoedd o dan a22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Cais i ddatgan bod eitem cyfrif yn groes i'r gyfraith o dan a32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, hysbysiad o benderfyniad i beidio â cheisio datganiad o'r fath a darparu datganiad o resymau ynglŷn â pheidio â cheisio datganiad<br>• Cyflwyno hysbysiadau cynghori o dan a33 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, darparu datganiad ynglŷn â'r rhesymau dros gyflwyno hysbysiadau o'r fath, diddymu hysbysiadau o'r fath a hysbysu ynghylch hynny<br>• Cais am arolwg barnwrol o dan a36 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.12 | Gohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol (gohebiaeth yn ymwneud ag archwiliadau) (ac eithrio eitemau sy’n amlwg yn berthnasol i 4.3 isod yn unig) | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn dirprwyo hyn ymhellach i’r cyfarwyddwyr ymgysylltu |
| 1.13 | Datblygu cais am astudiaeth (h.y. dogfen cychwyn prosiect) | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn dirprwyo’r swyddogaeth hon ymhellach i’r arweinydd ymgysylltu a benodwyd i’r astudiaeth. |
| 1.14 | Cymeradwyo cais am astudiaeth ac awdurdodi’r broses o ddechrau ar hynny | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.15 | Cyflwyno neu fel arall awdurdodi cyhoeddiad adroddiad astudiaeth | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.16 | Cynllunio a chyflawni gwaith yn berthnasol i Fesur 2009 (yn amodol ar 1.17 ac 1.18 isod) | Wedi pennu Arweinydd Ymgysylltu o dan 1.3 | Yr Arweinydd Ymgysylltu i ddirprwyo gwaith ymhellach i’r staff a benwyd i’r gwaith |
| 1.17 | Awdurdodi’r gwaith o gychwyn arolwg arbennig o dan a21 o Fesur 2009 | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.18 | Awdurdodi cyhoeddi adroddiadau ynglŷn â gwaith yn ymwneud â Mesur 2009 | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.19 | Llofnodi tystysgrifau hawlio grantiau | Arweinydd ymgysylltu ardystio wedi ei bennu o dan 1.3 | Y swyddogaeth o lofnodi hawliadau grant syml wedi ei dirprwyo i’r rheolwyr archwilio. |

| | **Swyddogaeth** | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud** | **Nodiadau ac amodau** |
|---|---|---|---|
| 1.20 | Paru Data | | |
| 1.20.1 | Pennu arweinydd ymgysylltu ar gyfer paratoi Cod Ymarfer Paru Data | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.20.2 | Pennu staff ar gyfer paratoi'r Cod Ymarfer Paru Data | Wedi penu arweinydd ymgysylltu o dan 1.20.1 | |
| 1.20.3 | Cymeradwyo a chyhoeddi Cod Ymarfer Paru Data | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.20.4 | Awdurdodi cychwyn ymarferiad paru data | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 1.20.5 | Awdurdodi cyhoeddiad adroddiad ynglŷn ag ymarferiad paru data | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 2. | Rheoli Cronfa Gyfunol Cymru | | |
| 2.1 | Cymeradwyo codi arian o Gronfa Gyfunol Cymru | Staff a awdurdodwyd yn benodol gan yr Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau i godi arian (fel y nodir yng ngofnodion y Gronfa Gyfunol) | Ni chaniateir dirprwyo ymhellach heb gymeradwyaeth benodol yr Archwilydd Cyffredinol. |
| 2.2 | Cadw cofnod canolog o'r trafodion ariannol awdurdodedig o'r Gronfa Gyfunol | Staff a awdurdodwyd yn benodol gan yr Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau i godi arian (fel y nodir yng ngofnodion y Gronfa Gyfunol) | Ni chaniateir dirprwyo ymhellach heb gymeradwyaeth benodol yr Archwilydd Cyffredinol. |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud** | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 3. | Cyhoeddi cod ymarfer archwilio, canllaw technegol a sicrhau ansawdd | | |
| 3.1 | Pennu arweinydd ymgysylltu ar gyfer paratoi neu ddiwygio'r cod ymarfer archwilio | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 3.2 | Pennu staff i'r tîm technegol archwiliadau ariannol | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | |
| 3.3 | Pennu staff i'r tîm datblygu perfformiad ac arwain | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | |
| 3.4 | Paratoi a diwygio'r cod ymarfer archwilio | Wedi penodi arweinydd ymgysylltu o dan 3.1 | |
| 3.5 | Ymgynghori ar ac awdurdodi cyhoeddiad cod ymarfer archwilio neu fersiwn ddiwygiedig ohono | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 3.6 | Rhoi cyngor ac arweiniad o dan y cod ymarfer archwilio:<br>**a** O ran cynnal archwiliadau ariannol ac ardystio grantiau<br>**b** O ran y casgliad ynglŷn â gwerth am arian, archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau a gwaith sy'n berthnasol i Fesur 2009 | **a** Y Cyfarwyddwr Technegol Archwilio Ariannol<br>**b** Y Cyfarwyddwr Datblygu Perfformiad | Y Cyfarwyddwr Technegol Archwilio Ariannol i ddirprwyo ymhellach i'r staff a bennwyd i'r tîm technegol.<br>Y Cyfarwyddwr Datblygu Perfformiad i ddirprwyo ymhellach i'r staff a bennwyd i'r tîm datblygu. |
| 3.7 | Pennu staff a sicrhau contractwyr i fonitro ansawdd y gwaith archwilio a systemau cefnogi corfforaethol perthnasol | Yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol | |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 4. | Swyddogaethau ategol ac ati | | |
| 4.1 | Pennu arweinydd ymgysylltu ar gyfer y tîm Cyfnewid Arfer Da | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |
| 4.2 | Y cyfrifoldeb pennaf am reoli a chynllunio gwaith y tîm Cyfnewid Arfer Da | Wedi pennu arweinydd ymgysylltu o dan 4.1 | |
| 4.3 | Ymdrin â chwynion ynglŷn â chyflawni (neu ddiffyg cyflawni) swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac achosion o weithwyr yn datgelu unrhyw gamymddwyn (dinoethi) | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael cefnogaeth y Pennaeth Cyfraith a Moeseg. |
| 4.4 | Gwaith cyfathrebu o ran swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (e.e. hysbysu'r wasg) | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael cefnogaeth y Pennaeth Cyfathrebu. |
| 4.5 | Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar yr Archwilydd Cyffredinol ac eithrio drwy gyfrwng deddfwriaeth archwilio.<br>Er enghraifft: gwaith yn ymwneud â gwyngalchu arian, gwybodaeth llywodraethu a chydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb. | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael cefnogaeth y Pennaeth Cyfraith a Moeseg i wneud trefniadau. Mae rheolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth o ddydd i ddydd. |
| 4.6 | Yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi ei farn fel y 'Person Perthnasol' ar gyfer a36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | |

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 5. | Swyddogaethau eraill | | |
| 5.1 | Cydbaratoi[5] y Cynllun Blynyddol gyda'r Bwrdd | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r gwaith o baratoi'r cynllun blynyddol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 5.2 | Cydbaratoi[6] y cod perthynas gyda'r Bwrdd | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r gwaith o baratoi'r Cod Perthynas i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan Ysgrifennydd y Bwrdd.<br>Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn ymgynghori â'r Pennaeth Cyfraith a Moeseg. |
| 5.3 | Cydbaratoi[7] yr Amcangyfrif gyda'r Bwrdd | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r gwaith o baratoi'r amcangyfrif i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol sy'n cael cefnogaeth gan y Rheolwr Cyllid. |
| 5.4 | Gweithio gyda chadeirydd y Bwrdd i gydbaratoi[8] adroddiadau ynglŷn â chyflawni swyddogaethau (gan gynnwys o ran cysondeb gyda'r Cynllun Blynyddol) | *Archwilydd Cyffredinol* | Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r gwaith o baratoi adroddiadau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |

5 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Cynllun Blynyddol
6 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Cod Perthynas
7 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Amcangyfrif
8 h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi adroddiadau ynglŷn â chyflawni swyddogaethau

| | Swyddogaeth | Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei ***Neilltuo*** drwy statud | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 5.5 | Paratoi Cynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol | *Yr Archwilydd Cyffredinol* | Wrth baratoi neu ddiwygio cynllun mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r Bwrdd (a18(7) o Ddeddf 2013).<br>Yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r gwaith o baratoi ei Gynllun Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael cefnogaeth gan y Pennaeth Cyfraith a Moeseg. |
| 5.6 | Enwebu gweithiwr cyflogedig i fod yn aelod staff enwebedig yr Archwilydd Cyffredinol ar y Bwrdd | *Yr Archwilydd Cyffredinol* (underlined) | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cyngor y Bwrdd wrth enwebu rhywun. |
| 6. | Swyddogaeth y Swyddog Cyfrifyddu (darllenwch ar y cyd ag Adran 6 o gynllun Swyddfa Archwilio Cymru) | | |
| 6.1 | Cymeradwyo polisïau cyfrifyddu | *Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu* | Hefyd wedi ei neilltuo i'r Bwrdd. Bydd y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd yn cael cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. |

| | Swyddogaeth | **Wedi ei Dirprwyo, ei *Neilltuo*, neu ei *Neilltuo* drwy statud** | **Nodiadau ac amodau** |
|---|---|---|---|
| 6.2 | Cadw cyfrifon a chofnodion priodol ynglŷn â phob blwyddyn ariannol | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol yn dirprwyo’r swyddogaeth hon ymhellach i’r penaethiaid cyllideb mewn cysylltiad â’r cyllidebau a ddirprwyir yn unol â’r Llawlyfr Rheolaeth Ariannol. |
| 6.3 | Paratoi datganiad o gyfrifon sy’n rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol | |
| 6.4 | Llofnodi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a’r datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol | *Yr Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu* | |
| 6.5 | Gwneud trefniadau i alluogi’r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â chanllaw Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ac unrhyw gyfrifoldebau eraill a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol | Cyfrifoldebau eraill wedi eu rhestru ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk